| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 18 Gorffennaf 2024 | |
| **Pwnc:** | Canlyniadau Menter Twyll Genedlaethol 2022-24 – Adroddiad Cynnydd | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@anglesey.llyw.cymru | |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@anglesey.llyw.cymru | Andrew Lewis<br>Uwch Archwiliwr<br>AndrewLewis@anglesey.llyw.cymru |
| **Natur a Rhesymau dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol iddo oruchwylio trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli'r risgiau o dwyll a llygredd, gan roi sicrwydd eu bod yn addas i'r diben ac y byddant yn hyrwyddo arferion atal twyll a llygredd i'r sefydliad ehangach (3.4.8.9.2). Wrth wneud hynny, bydd y Pwyllgor yn ystyried y sicrwydd a ddarperir gan archwilio mewnol (3.4.8.9.6). Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd diweddar a wnaed gan y Cyngor a'r canlyniadau yn sgil cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). | | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data ledled y DU sy'n helpu i ganfod ac atal twyll. Fe'i cynhelir yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan ei bwerau paru data statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ar y cyd â Swyddfa'r Cabinet.

1.2. Mae Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor 2022-2025 yn cydnabod bod gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn fodd i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

1.3. Mae Archwilio Cymru yn argymell y dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer NFI fanteisio'n llawn arno.

1.4. Er bod y tîm Refeniw wedi rhoi cymorth gwerthfawr wrth ddadansoddi pariadau ac ymateb i ymholiadau, nid oedd y tîm Budd-daliadau yn gallu dyrannu adnoddau i ddadansoddi pariadau, gan arwain at golli cyfleoedd i atal twyll a manteision posibl.

1.5. Er nad yw canlyniadau ariannol yr NFI yn dangos y budd anfesuradwy o ganfod a chryfhau gwendidau rheolaeth fewnol, mae'r adroddiadau'n gyffredinol wedi bod o gymorth i atal hawliadau twyllodrus neu wallus.

1.6. Yn sgil cymryd rhan mewn ymarfer paru peilot a oedd yn cynnwys paru treth y cyngor a datgelu Gwybodaeth Cofrestru Marwolaethau, tynnwyd sylw at wendidau prosesau hysbys, gan bwysleisio'r angen i adolygu'r hawl i eithrio rhag talu'r dreth gyngor. Rydym wedi rhoi adborth i Swyddfa'r Cabinet, gan nodi materion ac achosion llwyddiannus o barau a fu'n gymorth i wella cofnodion gwasanaeth.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymryd sicrwydd o'r adroddiad bod y Cyngor, gan ystyried yr angen i flaenoriaethu ei adnoddau, yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd drwy’r Fenter Twyll Genedlaethol i ddefnyddio a dadansoddi data i gryfhau’r broses o atal a chanfod twyll.

# Menter Twyll Genedlaethol (NFI) 2022-2024 Adroddiad Cynnydd

Gorffennaf 2024




Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Andrew Lewis BA (Anrhydedd) IRRV (Dip) ACFTech



# Cynnwys

Cyflwyniad **Error! Bookmark not defined.**
Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor – bron yn 18 oed (121 achos o baru) 2
Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y Gofrestr Etholiadol (1,123 grŵp o bariadau) 2
Treth y Cyngor yn erbyn Setiau Data Eraill (1,141 achos o baru) 3
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn -Manylion Preswylwyr mewn Cartrefi - CThEF (40 achos o baru) 3
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Perchnogaeth Eiddo - CThEF (97 achos o baru) 3
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Enillion a Chyfalaf - CThEF (9 achos o baru) 3
Hawlwyr Budd-dal Tai yn erbyn Benthyciadau Myfyrwyr (9 achos o baru) 3
Achosion o baru'r Dreth Gyngor yn erbyn Datgelu Gwybodaeth am Gofrestru Marwolaethau (DDRI) (Peilot) 4
Pariadau peilot a chanlyniadau 4
Camau nesaf 5
Amserlen NFI 2024-25 ddisgwyliedig: 5
Casgliad 6
Atodiad 1 – Tabl canlyniadau NFI 7

# Cyflwyniad

1. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn ymarfer paru data a gynhelir gan Swyddfa'r Cabinet sy'n ceisio canfod ac atal twyll a gwallau. Mae'n orfodol i Gyngor Sir Ynys Môn, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill a chyrff sector cyhoeddus, gymryd rhan.

2. Mae Strategaeth Atal twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y Cyngor 2022-2025 yn cydnabod bod gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn gallu lliniaru'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

3. Fel y cydnabuwyd gan Archwilio Cymru, mae llwyddiant ymarfer yr NFI yn dibynnu ar ba mor rhagweithiol ac effeithiol yw'r cyrff sy'n cymryd rhan wrth ymchwilio i achosion o baru data. Fodd bynnag, dim ond un elfen o strategaeth atal twyll effeithiol yw cymryd rhan yn yr NFI; mae diwylliant atal twyll cryf a pholisïau a gweithdrefnau atal twyll effeithiol hefyd yn hanfodol.

4. Ym mis Rhagfyr 2023, yn ôl yr angen, uwchlwythodd y Cyngor ddata diweddaraf o ran y Dreth Gyngor a data'r Gofrestr Etholiadol i raglen gwefan yr NFI er mwyn paru data.

5. Ers cyflwyno ein hadroddiad canlyniadau NFI blaenorol i'r Pwyllgor hwn ym mis Rhagfyr 2023, mae'r NFI hefyd wedi diweddaru a/neu ryddhau rhai adroddiadau newydd mewn perthynas â Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-dal Tai.

6. Ym mis Ionawr 2024, cytunodd y Cyngor i gymryd rhan mewn ymarfer peilot i dderbyn canlyniad y Dreth Gyngor yn erbyn Datgelu Gwybodaeth am Gofrestru Marwolaethau (DDRI). Rhyddhawyd yr achosion hyn o barau i'w dadansoddi ym mis Mawrth 2024.

7. Bydd yr adroddiad hwn yn hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed gan y Cyngor i ddadansoddi'r achosion diweddaraf hyn o baru a manylir ar y canlyniadau perthnasol (edrychwch ar Atodiad 1 i weld y tabl trosolwg).

## Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor – bron yn 18 oed (121 achos o baru)

8. Mae'r adroddiad NFI hwn yn nodi cyfeiriadau lle mae'r trethdalwr yn hawlio gostyngiad person sengl y dreth gyngor ar y sail mai nhw yw'r unig oedolyn sy'n byw yn yr eiddo, fodd bynnag, awgryma data'r gofrestr etholiadol fod rhywun arall yn byw yn y cyfeiriad sydd bron yn 18 oed.
9. Ar 08/12/23, rhyddhaodd yr NFI 121 o bariadau o'r math hwn. Mae Swyddog Cydymffurfio â Threthi'r Cyngor wedi dadansoddi pob un o'r 121 o'r achosion hyn ac mae naill ai wedi canslo'r gostyngiad person sengl, os yw'n berthnasol, neu wedi rhoi dyddiad dod i ben dros dro i'r gostyngiad yn unol â'r dyddiad y mae'r preswylydd(wyr) arall/eraill yn troi'n 18 oed.
10. Mae'n anodd cyfrifo union werth/canlyniad yr ymarfer NFI hwn oherwydd, mewn llawer o achosion, mae'r gostyngiad person sengl o 25% yn cael ei newid i ostyngiad o 25% 'ar gyfer unigolion sy'n cael eu diystyru' oherwydd fydd y preswylydd sydd bron yn 18 oed (mab / merch y trethdalwr fel arfer) yn dal i fod mewn Addysg Bellach.
11. Fodd bynnag, mae'r ymarfer yn fuddiol i sicrhau cywirdeb ac uniondeb cofnodion y dreth gyngor. Hefyd, mae'n debygol y byddai angen talu'r dreth gyngor yn llawn ar ôl iddynt orffen eu cwrs Addysg Bellach, oni bai eu bod wedi gadael / cofrestru ar gwrs Addysg Uwch llawn amser. Felly, bydd rhoi dyddiad dod i ben dros dro i'r gostyngiad person sengl yn sicrhau bod y swm cywir o dreth gyngor yn cael ei godi yn y tymor canolig i'r tymor hir, gan arwain at fwy o refeniw i'r Cyngor.

## Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y Gofrestr Etholiadol (1,123 grŵp o achosion o baru)

12. Mae'r adroddiad NFI hwn yn nodi cyfeiriadau lle mae deiliad y tŷ yn hawlio gostyngiad person sengl y dreth gyngor ar y sail eu bod yn byw ar eu pen eu hunain, fodd bynnag dengys y gofrestr etholiadol fod mwy nag un person sy'n 18 oed neu hŷn yn byw yn yr eiddo.
13. Mae'r tîm Refeniw wedi adolygu sampl fach o'r achosion hyn o baru ac wedi nodi problemau sylweddol gydag anghysonderau/canlyniadau positif anghywir. Er enghraifft, o ran achosion o baru sy'n gysylltiedig ag eiddo rhent preifat, mae enw'r tenant(iaid) blaenorol yn parhau ar y gofrestr etholiadol er eu bod wedi gadael yr eiddo rai blynyddoedd yn ôl. Mae hyn wedyn yn arwain at baru gwallus gan ei fod yn awgrymu bod nifer o oedolion yn byw yn yr eiddo pan nad yw hynny'n wir.
14. Mae'r tîm Refeniw yn dal i gaffael adolygiad Gostyngiad Person Sengl a reolir yn llawn gan ddarparwr allanol. Bydd yr adolygiad hwn yn defnyddio dadansoddeg data, data ariannol cyfredol y Ganolfan Gredyd a sgiliau ymchwilio traddodiadol i fynd ati'n barhaus i fonitro'r holl hawliadau presennol am Ostyngiad Person Sengl ac adolygu'r holl hawliadau newydd, dros gyfnod o amser y cytunwyd arno.
15. O ganlyniad, oherwydd y mae'n debygol y bydd nifer uchel o anghysonderau/canlyniadau positif anghywir yn yr adroddiad NFI hwn ac o ystyried yr adolygiad Gostyngiad Person Sengl sydd i'w gynnal yn fuan, mae'r rheolwyr wedi penderfynu na fydd adnoddau'n cael eu neilltuo i asesu'r achosion diweddaraf hyn o baru.

## Treth y Cyngor yn erbyn Setiau Data Eraill (1,141 achos o baru)

16. Mae'r adroddiad NFI hwn yn nodi cyfeiriadau lle mae deiliad y tŷ yn hawlio gostyngiad person sengl y dreth gyngor ar y sail eu bod yn byw ar eu pennau eu hunain, fodd bynnag awgryma gwybodaeth / setiau data eraill (e.e. Deiliaid Bathodyn Glas, derbynwyr Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Hawlwyr Budd-dal Tai, Tenantiaid Tai, Rhestr Aros Tai, Cyflogres) y gallai fod mwy nag un person yn byw yn yr eiddo.
17. Gan fod yr adroddiad hwn yn cymharu data diweddaraf y dreth gyngor â setiau data hŷn a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2022, mae'r NFI yn cydnabod y gallai'r adroddiad hwn gynnwys achosion o baru nad ydynt yn berthnasol mwyach.
18. O ganlyniad, ni neilltuwyd adnoddau i ddadansoddi'r achosion hyn o baru.

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Manylion Preswylwyr mewn Cartrefi - CthEF (40 achos o baru)

19. Mae data'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi'i baru â manylion Preswylwyr mewn Cartrefi CThEf i nodi achosion lle nad yw'r sawl sy'n derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor wedi datgelu bod pobl eraill yn byw ar yr eiddo.
20. Rydym wedi darparu copi o'r adroddiad NFI i'r Gwasanaeth i'w ddadansoddi, ond nid ydym wedi derbyn canlyniad eu hadolygiad eto.

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Perchnogaeth Eiddo - CthEF (97 achos o baru)

21. Mae data'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi'i baru â gwybodaeth Perchnogaeth Eiddo CThEf i nodi achosion lle nad yw'r sawl sy'n derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor wedi datgelu eu bod yn berchen ar eiddo arall.
22. Rydym wedi darparu copi o'r adroddiad NFI i'r Gwasanaeth i'w ddadansoddi, ond nid ydym wedi derbyn canlyniad eu hadolygiad eto.

## Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Enillion a Chyfalaf - CthEF (9 achos o baru)

23. Mae data'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi'i baru â gwybodaeth am Enillion a Chyfalaf CThEf i nodi achosion lle nad yw'r sawl sy'n derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor wedi datgelu enillion a chyfalaf perthnasol.
24. Rydym wedi darparu copi o'r adroddiad NFI i'r Gwasanaeth i'w ddadansoddi, ond nid ydym wedi derbyn canlyniad eu hadolygiad eto.

## Hawlwyr Budd-dal Tai yn erbyn Benthyciadau Myfyrwyr (9 achos o baru)

25. Cymharwyd data Budd-dal Tai a Benthyciadau Myfyrwyr i nodi unigolion sy'n hawlio budd-dal tai, ond sy'n derbyn taliadau benthyciad myfyriwr sy'n golygu nad ydynt o bosibl yn gymwys.
26. Rydym wedi darparu copi o'r adroddiad NFI i'r Gwasanaeth i'w ddadansoddi, ond nid ydym wedi derbyn canlyniad eu hadolygiad eto.

# Achosion o baru'r Dreth Gyngor â Datgelu Gwybodaeth am Gofrestru Marwolaethau (DDRI) (Peilot)

27. Nod paru cofnodion y Dreth Gyngor â Gwybodaeth Cofrestru Marwolaethau (DDRI) yw galluogi'r Cyngor i ganfod cyfrifon y dreth gyngor y mae angen eu newid yn dilyn marwolaeth y person atebol h.y. y sawl sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am dalu'r dreth gyngor.

28. Mae adroddiad yr NFI yn nodi achosion lle nad yw'r Cyngor naill ai wedi cael ei hysbysu gan berthnasau/perthynas agosaf / ysgutorion/landlord yr ymadawedig, neu achosion lle bu camgymeriad gweinyddol mewnol wrth ddelio â gwybodaeth o'r fath.

29. Y fantais glir o sicrhau'r atebolrwydd cywir i dalu'r dreth gyngor yw ei fod yn sicrhau bod cofnodion yn gywir at ddibenion bilio a chasglu. O ran canlyniadau refeniw, gallai newidiadau arwain at gael gwared ar ostyngiad/eithriad sy'n cael ei hawlio drwy dwyll/yn anghywir, ond gallent hefyd arwain at ddyfarnu eithriad y dreth gyngor (Dosbarth F) neu newid o ran atebolrwydd, Felly, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai'r achosion o baru arwain at symiau uwch neu is o refeniw'r dreth gyngor.

30. Arweiniodd diffyg manylion penodol, fel Rhif Yswiriant Gwladol, at rywfaint o bariadau anghywir, er enghraifft, pan oedd yr enw ar y tad a'r mab, neu'r fam a'r ferch, a'u bod wedi'u paru fel yr un person.

## Pariadau peilot a chanlyniadau

31. Yn sgil cynllun peilot paru data NFI darparwyd adroddiad yn cynnwys cyfanswm o 535 achos o baru.

32. Yn sgil dadansoddi'r data, canfuwyd bod 351 o'r achosion o baru yn rhai "heb unrhyw faterion yn codi", h.y. roedd atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor eisoes wedi cael ei newid yn gywir. Mewn perthynas â'r 351 o'r achosion hyn o baru, mae enw'r person atebol yn cael ei ragflaenu gan y teitl "ysgutorion", sy'n golygu bod y Cyngor eisoes wedi cael gwybod am farwolaeth y person atebol ac wedi newid y cyfrif yn unol â hynny.  Mae hwn yn wendid amlwg yn y broses beilot paru data NFI ac mae adborth wedi'i roi i Swyddfa'r Cabinet.

33. Mae 255 o'r 351 o'r cyfrifon "Ysgutorion" yn destun eithriad Dosbarth F ar hyn o bryd. Rhoddir eithriad Dosbarth F i "eiddo heb ei feddiannu lle mae person yn berson cymwys yn rhinwedd ei fod yn gynrychiolydd personol, naill ai os na wnaed profiant neu lythyrau gweinyddu, neu os yw llai na chwe mis wedi mynd heibio ers y diwrnod y gwnaed hynny;" Fel arfer, rhoddir eithriad Dosbarth F os mai'r ymadawedig yw unig berchennog rhydd-ddaliol yr eiddo, ond gellir ei roi hefyd mewn perthynas â phrydlesau/tenantiaethau.

34. Yn gyffredinol cydnabyddir ei bod yn cymryd rhwng tri a 12 mis i gwblhau cais am brofiant ond gall gymryd mwy o amser mewn achosion mwy cymhleth. Fodd bynnag, mae 50 o'r 255 cyfrif sy'n destun eithriad Dosbarth F yn ymwneud ag unigolion a fu farw fwy na dwy flynedd yn ôl.

35. Mae hyn yn dangos y gallai fod angen sicrhau trefniadau adolygu eithriadau mwy cadarn er mwyn gwneud yn siŵr fod yr hawliadau'n gywir. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ei bod yn gallu bod yn her i'r adran wybod beth yw'r sefyllfa wirioneddol/atebolrwydd os nad oes rhagor o wybodaeth ar y Gofrestrfa Tir neu gofnodion profiant, ac nad oes unrhyw gynrychiolwyr cyfreithiol/ysgutorion wedi dod ymlaen i egluro'r sefyllfa.

36. Ar hyn o bryd mae prosesau mewnol yn cael eu cryfhau gan reolwyr a bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon yn fuan at yr holl gyfrifon perthnasol sy'n destun eithriad Dosbarth F sy'n gofyn am ragor o wybodaeth. Os na dderbynnir ymateb, bydd esemptiad yn cael ei ddiddymu.

37. Yn seiliedig ar ddadansoddiad o sampl o'r 184 o achosion o baru sy'n weddill, penderfynodd y Gwasanaeth na fyddai unrhyw adnoddau pellach yn cael eu neilltuo i werthuso'r holl ganlyniadau hyn.

38. Roedd pump o'r achosion sampl a ddadansoddwyd yn rhai gwallus gan fod y data'n ymwneud â gwahanol bobl, h.y. yr un enw, yr un dyddiad geni ond nid yr un person.

39. Roedd enghreifftiau hefyd lle'r oedd y Cyngor wedi cael gwybod am farwolaeth trethdalwr oedd yn atebol, ond roedd wedi cael ei weinyddu yn dilyn cyflwyno'r data i'r NFI.

40. Fodd bynnag, fe wnaeth y sampl gynnig rhywfaint o achosion dibynadwy, gwerthfawr o baru sydd wedi cynorthwyo'r tîm Refeniw i gywiro eu cofnodion:

- **Achos o baru - rhif 242** - Amlygodd y Datgeliad Gwybodaeth Cofrestru Marwolaeth fod y trethdalwr wedi marw ym mis Rhagfyr 2022. Nid oedd y landlord wedi rhoi gwybod i'r Cyngor am hyn ac yn sgil hynny fod y denantiaeth wedi dod i ben. Nid oedd y broses o adennill yr arian / gorfodi wedi datgelu'r wybodaeth hon chwaith. Mae atebolrwydd i dalu'r dreth cyngor bellach wedi cael ei newid a bydd y landlord yn atebol i'w dalu ers mis Rhagfyr 2022. Yn dilyn cyfnod eithrio cychwynnol o 12 mis ar gyfer eiddo gwag, heb ddodrefn sy'n cael ei adnewyddu, mae'r landlord bellach yn atebol i dalu £3,837.72 mewn perthynas â blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25.
- **Achos o baru - rhif 315** - Amlygodd Datgelu Gwybodaeth Cofrestru Marwolaeth fod y person oedd yn atebol wedi marw ym mis Mai 2023. Fodd bynnag, parhaodd merch y diweddar i fyw yn y cyfeiriad ac mae hi wedi parhau i dalu'r dreth gyngor er ei bod wedi gwneud hynny yn enw'r ymadawedig. Bydd atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn cael ei gywiro ond ni fydd hyn yn arwain at fwy o refeniw i'r Cyngor yn yr achos hwn gan fod taliadau'n gyfredol. Fodd bynnag, mae'r achos hwn wedi helpu'r Cyngor i sicrhau trefn filio a gweinyddu gywir.

## Camau nesaf

41. Ym mis Gorffennaf 2024, bydd y camau paratoadol ar gyfer ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 yn dechrau. Mae Archwilio Cymru wedi bod mewn cysylltiad yn ddiweddar i gadarnhau Person Cyswllt Allweddol a manylion gweinyddol eraill.

42. Rydym yn disgwyl y bydd angen y setiau data arferol gan y Cyngor e.e. Bathodynnau Glas, Cyflogres, Credydwyr Masnach, y Dreth Gyngor, Cofrestr Etholiadol, Tenantiaid Tai/Rhestr Aros, Trwyddedau Tacsi.

43. Fodd bynnag, mae'r NFI hefyd wedi cynnig y dylid ei gwneud yn orfodol bod setiau data gofal cymdeithasol cartrefi gofal preswyl a chyllidebau personol yn cael eu cynnwys yn ymarfer NFI 2024-25, unwaith y bydd y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol i hwyluso porth cyfreithiol ar gyfer rhannu'r data hwn wedi'i gwblhau. Mae ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi cydnabod y gallai fod yn anodd bodloni gofynion manyleb data'r NFI, er enghraifft, os gofynnir am fanylion penodol fel rhif Yswiriant Gwladol.

### Amserlen NFI 2024-25 ddisgwyliedig:

- Gorffennaf 2024 - bydd y Cyngor yn derbyn y manylion data terfynol ar gyfer pob set ddata. Bydd gwaith yn dechrau gyda gwasanaethau i sicrhau y gallant fodloni'r manylebau data ar gyfer echdynnu data.
- Medi 2024 - cwblhau Datganiad Cydymffurfio Hysbysiad Preifatrwydd
- Medi 2024 - cydlynu echdynnu data gyda gwasanaethau
- Hydref/Tachwedd 2024 -uwchlwytho data
- Ionawr 2025 - achosion newydd o baru ar gael i'w hadolygu
- Medi 2025 – adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## Casgliad

44. Rydym yn ddiolchgar i'r gwasanaeth Refeniw am eu cymorth i ddadansoddi rhywfaint o'r achosion o baru ac ymateb i'n hymholiadau. Fodd bynnag, byddem unwaith eto yn adleisio argymhellion Archwilio Cymru y dylai’r rhai sy’n cymryd rhan yn yr ymarfer NFI sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o gymryd rhan ynddo.

45. Nid oedd y tîm Budd-daliadau yn gallu ymrwymo adnoddau i ddadansoddi Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i achosion o baru sy'n gysylltiedig â CThEF a'r achosion diwygiedig yn ymwneud â Budd-dal Tai. Er ei bod yn anochel y byddai rhai anghysonderau a chanlyniadau positif anghywir, heb os, byddai hefyd rai achosion o baru gwerthfawr. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn gwneud y mwyaf o'i gyfleoedd i atal twyll a sicrhau manteision posibl yr NFI.

46. Mae adroddiad Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor –rhai sydd bron yn 18 oed wedi bod yn fuddiol ac mae wedi galluogi'r adran i bennu dyddiadau dod i ben dros dro ar ostyngiadau, a thrwy hynny atal unrhyw gyfle i drethdalwyr naill ai barhau i hawlio'r gostyngiad drwy dwyll neu mewn camgymeriad.

47. Mae'r cyfle i nodi gwendidau rheolaeth fewnol ac i gryfhau prosesau yn sgil hynny o fudd anfesuradwy nad yw'n cael ei adlewyrchu gan ganlyniadau ariannol yr NFI (Atodiad 1). Fodd bynnag, mae peilot y Dreth Gyngor yn erbyn DDRI wedi pwysleisio gwendid y broses sydd eisoes yn hysbys ac mae wedi rhoi ysgogiad pellach i'r angen i adolygu’r hawl i eithrio - Dosbarth F.

48. Rydym wedi rhoi adborth i Swyddfa'r Cabinet ar ein defnydd o'r adroddiad h.y. eu hysbysu o'r mater "Ysgutorion" ac anghysonderau ond hefyd yn rhoi clod am y pariadau cywir sydd wedi galluogi'r gwasanaeth i ddiwygio eu cofnodion.

## Atodiad 1 – Tabl canlyniadau NFI

| Maes adrodd | Nifer yr achosion o baru | Nifer yr achosion o baru a ddanasoddwyd yn ôl gwasanaeth / Archwilio Mewnol | Twyll/Gwall wedi'i gadarnhau | Arall | Canlyniadau ariannol NFI h.y. y lefel gyffredinol o dwyll/gordaliadau a/neu wallau a ganfuwyd drwy'r ymarfer ac amcangyfrif o golledion yn y dyfodol y mae'n eu hatal |
|---|---|---|---|---|---|
| Treth y Cyngor yn erbyn y Gofrestr Etholiadol | 1,123 | 0 | amherthnasol | amherthnasol | amherthnasol |
| Treth y Cyngor i rai sydd bron yn 18 oed | 121 | 121 | Dim | *Ychwanegu dyddiad dod i ben dros dro at y cyfrifon sy'n derbyn gostyngiad Person Sengl, yn unol â'r dyddiad y mae'r deiliad arall bron yn 18 oed* | Mae'n anodd mesur enillion refeniw i'r dyfodol oherwydd y gostyngiad (25%) sy'n gysylltiedig ag addysg bellach / uwch ac ati. Fodd bynnag, y Dreth Gyngor ar gyfartaledd ar gyfer eiddo Band D yn CSYM yn 2024/25 yw £1,982.09 y flwyddyn. Felly, mae'r Gostyngiad Person Sengl 25% ar gyfartaledd yn werth £495.50 y flwyddyn. |
| Treth y Cyngor yn erbyn Setiau Data Eraill | 1,141 | 0 | amherthnasol | | amherthnasol |
| Treth y Cyngor yn erbyn Manylion Preswylwyr mewn Cartrefi - CThEF | 809 | 0 | amherthnasol | | amherthnasol |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Perchnogaeth Eiddo- CThEF | 97 | 0 | amherthnasol | | amherthnasol |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Enillion a Chyfalaf - CThEF | 9 | 0 | amherthnasol | | amherthnasol |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn erbyn Manylion Preswylwyr mewn Cartrefi - CThEF | 40 | 0 | amherthnasol | | amherthnasol |
| Hawlwyr Budd-dal Tai yn erbyn Benthyciadau Myfyrwyr | 9 | 0 | amherthnasol | | amherthnasol |
| Treth y Cyngor yn erbyn Datgelu Gwybodaeth am Gofrestru Marwolaethau (peilot) | 535 | 358 | 2 | | **£3,838.72** |
| **Cyfanswm** | **3,884** | **479** | **2** | | **£3,838.72** |